



Hysbysiad Preifatrwydd Cynhyrchu Cyfryngau Uwch

Cyflwyniad:

Mae prosiect Cynhyrchu Cyfryngau Uwch wedi ymrwymo i ddiogelu data personol. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn nodi pam a sut rydym yn casglu, yn defnyddio ac yn gofalu am y data personol a gasglwn wrth reoli gweithrediadau'r prosiect Cynhyrchu Cyfryngau Uwch. Mae'n berthnasol i ddata personol y bydd Cynhyrchu Cyfryngau Uwch yn ei dderbyn gan unigolion eu hunain neu gan eraill. Efallai y byddwn yn defnyddio data personol a ddarperir i ni at unrhyw un o'r dibenion a ddisgrifir yn y datganiad preifatrwydd hwn neu os dywedir fel arall wrth gasglu.

Casglu data personol:

Mae data personol yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw berson byw adnabyddedig / adnabyddadwy. Mae Cynhyrchu Cyfryngau Uwch yn casglu, yn defnyddio, yn storio ac yn trosglwyddo rhywfaint o ddata personol wrth reoli'r prosiectau hyn.

Ein polisi yw casglu dim ond y data personol sy'n angenrheidiol at ddibenion cyflawni rhwymedigaethau'r prosiectau. Dim ond pan fydd wir ei angen y gofynnwn am ddata personol.

Mae'r mathau o ddata personol a brosesir gan Gynhyrchu Cyfryngau Uwch yn cynnwys:

- Manylion personol - e.e. enw, dyddiad geni, a rhyw
- Manylion cyswllt - e.e. cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, a chyfeiriad

Ar gyfer rhai gweithgareddau (e.e. archwilio) gall Cynhyrchu Cyfryngau Uwch brosesu categorïau arbennig o ddata personol.

Mae'n amod yn y dyfarniad Cynhyrchu Cyfryngau Uwch bod data'n cael ei gadw gan y brifysgol am o leiaf ddeng mlynedd ar ôl diwedd y prosiect (h.y. diwedd Ebrill 2023), er y gallai hyn fod yn amodol ar newid a bydd yn cael ei arwain gan ofynion cadw WEFO.

Defnyddio data personol:

Mae Cynhyrchu Cyfryngau Uwch yn defnyddio data personol at y dibenion canlynol:

- Prosesu data personol i weinyddu a rheoli'r prosiect
- Rheoli perthnasoedd â rhanddeiliaid presennol a darpar randdeiliaid





- Datblygu a gwella'r prosiect
- Cynnal gwefan
- Cynnal digwyddiadau
- Datblygu sgiliau a gwybodaeth unigolion o berthnasedd cynaliadwyedd yng nghyd-destun academiaidd a busnes
- Mapio effaith y prosiect Cynhyrchu Cyfryngau Uwch yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

h.y. er budd cyfreithlon i weinyddu, rheoli a datblygu prosiect Cynhyrchu Cyfryngau Uwch.

- Ymgymryd â gweithgareddau sicrhau ansawdd - efallai y byddwn yn prosesu data personol ar gyfer monitro, gwerthuso a / neu adolygiadau

h.y. er budd cyfreithlon i sicrhau ansawdd ein gwasanaethau.

- Cydymffurfio â deddfau, rheoliadau a safonau. Mae Cynhyrchu Cyfryngau Uwch yn amodol ar rwymedigaethau cyfreithiol, rheoleiddiol a phroffesiynol. Rhaid inni gadw rhai cofnodion, a allai gynnwys data personol, i ddangos ein bod yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hyn pan fyddwn yn gweinyddu ac yn rheoli ein prosiectau.

h.y. er budd cyfreithlon i fodloni ein rhwymedigaethau rheoleiddiol neu broffesiynol.

Diogelu data personol:

Mae gan Gynhyrchu Cyfryngau Uwch bolisiau, gweithdrefnau a hyfforddiant gorfodol i staff ar waith sy'n ymwneud â diogelu data, cyfrinachedd a diogelwch. Hysbysir myfyrwyr adeg eu hymsefydlu y bydd eu data personol yn cael ei gasglu ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gweinyddu eu cyllid cymorth gwladwriaethol, a ddarperir gan WEFO. Dim ond trwy systemau diogel y bydd data personol yn cael ei gyflwyno, a dim ond aelodau tîm Cynhyrchu Cyfryngau Uwch priodol fydd yn cael mynediad at y data hwnnw. Mae dogfennau y mae'n rhaid eu cadw yn cael eu storio mewn cynwysyddion dan glo, a'u cadw mewn adeiladau a ddiogelir gan ddiogelwch. Gweithredir mesurau sefydliadol a thechnolegol priodol i amddiffyn rhag colli damweiniol, dinistrio, difrodi, newid neu ddatgelu data personol sy'n ymwneud â'r prosiectau. Mae'r brifysgol yn cadw at y Gyfraith Diogelu Data. Mae'r mesurau a amlinellir yma yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i atal data personol rhag cael ei golli, ei ddefnyddio neu ei gyrchu mewn modd heb awdurdod, ei newid neu ei ddatgelu.





Rhannu data personol:

Gellir rhannu'r data a gasglwn ag adrannau eraill y llywodraeth a chyrrff cyhoeddus sy'n chwarae rôl mewn rhaglenni ESF. Mae hyn yn cynnwys WEFO; LIC; EFAT. Pan fyddwn yn rhannu gwybodaeth, byddwn yn rhoi mesurau diogelwch digonol priodol ar waith i sicrhau diogelwch y data. Efallai y byddwn yn datgelu'ch gwybodaeth personol i drydydd partïon os yw'n ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith - er enghraifft, trwy orchymyn llys, neu i atal twyll neu droseddau eraill; neu i amddiffyn hawliau, eiddo neu ddiogelwch eraill.

Cadw data personol:

Cedwir data personol yn unol â pholisi cadw Cynhyrchu Cyfryngau Uwch, fel sy'n ofynnol o dan reolau cyllido WEFO. Mae hyn er mwyn sicrhau y bydd dogfennau ar gael i WEFO neu archwilwyr ar gais.

Eich hawliau:

Mae gan unigolion hawliau penodol dros eu data personol ac rydym yn gyfrifol am gyflawni'r hawliau hyn.

Mae gan unigolion yr hawl i ofyn am:

- Wybodaeth am sut mae'ch data personol yn cael ei brosesu
- Copi o'ch data personol
- Cywiro unrhyw beth anghywir yn eich data personol
- Dileu'ch data personol os nad oes cyfiawnhad bellach dros ei storio neu ei brosesu
- Cyfyngu ar brosesu'ch data personol mewn rhai amgylchiadau

Gallwch hefyd godi gwrthwynebiad ynglŷn â sut mae'ch data personol yn cael ei brosesu. Os oes gennych gais neu wrthwynebiad, cysylltwch â ccu-amp@aber.ac.uk

Mae gan y brifysgol Weithdrefn Gwyno ar gyfer unigolion sy'n anfodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'u data personol. Gellir cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data: www.ico.gov.uk

Cysylltu â ni:

Cysylltwch â rheolwr prosiect Cynhyrchu Cyfryngau Uwch ym Mhrifysgol Aberystwyth os:





Cynhyrchu
Cyfryngau Uwch
Advanced Media
Production



- Ydych yn dymuno gwneud unrhyw un o'r ceisiadau a ddisgrifir uchod
- Oes gennych gwestiynau am unrhyw beth yn y ddogfen hon
- Ydych chi'n meddwl ein bod wedi camddefnyddio neu gam-drin eich data personol

Gweler 'cysylltiadau' yma: ccu-amp@aber.ac.uk

Gellir dod o hyd i ganllaw GDPR WEFO yma:

<https://gweddiill.gov.wales/docs/wefo/publications/180622-wefo-gdpr-v2-en.pdf>



Cynhyrchu
Cyfryngau Uwch
Advanced Media
Production



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

